PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD IAU, 16 TACHWEDD 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Owen Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Derbyshire, Gibson, Green, Lancaster, Lloyd Jones, Jackie Parry, Proctor a/ac Wood |

20 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim ymddiheuriadau am absenoldeb.

21 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Owen Jones fuddiant personol yn Eitem 4 fel Cyfarwyddwyr Anweithredol Bws Caerdydd.

22 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2023 yn gofnod cywir ac fe’u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

23 : TRAFNIDIAETH CYMRU - PROSIECTAU CAERDYDD

PENDERFYNWYD – Bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd wrth ystyried yr eitem ganlynol gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth wedi’i heithrio o'r math a ddisgrifir ym mharagraffau 14 a 21 rhannau 4 a 5 o Atodlen 12A Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a wnaed yn ystod y ffordd ymlaen.

24 : DIWEDDARIAD AR YR ARGYFWNG NATUR/BIOAMRYWIAETH

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a ddatganwyd ym mis Tachwedd 2021 a hefyd cynnydd mewn perthynas â datblygu Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau. Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, rhaid i awdurdodau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch. Roedd angen y cyntaf o'r cynlluniau hyn yn 2019. Mae’r adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau (DBGE) wedi cael ei ohirio am nifer o resymau, gan gynnwys gan fod y swydd Ecolegydd yn wag.

Mae Partneriaethau Natur Lleol (PNLau) wedi cael eu sefydlu ym mhob Awdurdod Lleol a Pharc Cenedlaethol yng Nghymru drwy brosiect 'PNL Cymru' a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Ffurfiwyd PNL Caerdydd yn 2020 gyda phenodi Cydlynydd PNL a chreu Grŵp Llywio PNL. Mae PNLau yn elfen annatod wrth fynd i'r afael â'r argyfwng natur yng Nghymru, gan roi cyngor ar fioamrywiaeth; chwilio am gyfleoedd cyllido a chydweithrediadau; cefnogi grwpiau cymunedol i weithredu; a rhannu gwybodaeth am brosiectau, digwyddiadau a gweithgareddau sy'n seiliedig ar natur. Mae PNLau yn gyfrifol am gynhyrchu Cynlluniau Gweithredu Adfer Natur Lleol i ategu ac atgyfnerthu ymdrechion adfer natur cenedlaethol ar lefel leol.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Caro Wild, yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Steve Ball, Rheolwr Datblygu Strategol a Chreu Lleoedd, John Maidment, Rheolwr Gweithredol Parciau, Chwaraeon ac Awdurdod yr Harbwr, Justin Groves, Ecolegydd Sirol a Sam Eaves, Cydlynydd PNL. Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad byr.

Yn dilyn cyflwyniad gan y swyddogion, agorodd y Cadeirydd y drafodaeth ar yr eitem hon. Mae’r trafodaethau hynny wedi’u crynhoi isod:

- Nododd yr Aelodau fod y rhan fwyaf o'r cyllid sydd ar gael i wynebu heriau'r Argyfwng Natur yn dod gan Lywodraeth Cymru. Gofynnodd Aelod a oedd yr Argyfwng Natur yn cael amlygrwydd cyfartal â'r Argyfwng Hinsawdd. Derbyniodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd y pwynt. Ystyriwyd bod yr agenda Newid Hinsawdd yn cael ei chydnabod yn gyffredinol mewn ffordd nad yw'r Argyfwng Natur yn cael ei gydnabod ac roedd hyn yn cyflwyno her. Fodd bynnag, gall yr awdurdod amddiffyn ei safle yn gadarn o ran ei ymrwymiad i'r Argyfwng Natur.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd yr awdurdod yn hyderus y byddai'r momentwm a'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r Argyfwng Natur yn parhau pe bai cyllid grant gan Lywodraeth Cymru yn cael ei dynnu'n ôl. Nid oedd yr Aelod Cabinet yn gallu dyfalu ar hyn o bryd ond ailadroddodd ymrwymiad maniffesto'r awdurdod i'r agenda ‘werdd'.

- Croesawodd yr Aelodau y gwaith partneriaeth gyda chyrff cyhoeddus eraill. Gofynnodd Aelod a ellid gwneud mwy i weithio ar y cyd ag awdurdodau lleol cyfagos er mwyn cyfoethogi natur ar lefel ranbarthol. Dywedodd Rheolwr Gweithredol Parciau, Chwaraeon ac Awdurdod yr Harbwr fod Caerdydd yn rhagweithiol ar lefel weithredol o ran gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol cyfagos. Fodd bynnag, efallai bod lle i wella ar lefel strategol. Mae’r rhwydwaith Mannau Gwyrdd Cymru yn cysylltu'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ar lefel weithredol.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd digon yn cael ei wneud i ymgysylltu ag ysgolion a phobl ifanc yn gyffredinol i lunio strategaeth. Dywedodd Rheolwr Datblygu Strategol a Chreu Lleoedd mai addysg oedd yr allwedd i fynd i'r afael â'r Argyfwng Natur a bod yr awdurdod bob amser yn ceisio cael pobl ifanc i gymryd rhan. Mae ffrwd waith ysgolion gref o fewn prosiect Coed Caerdydd ond mae angen

datblygu'r maes hwn ymhellach.

- Gofynnwyd i'r swyddogion wneud sylwadau ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) diwygiedig ac a fyddai'r CDLl yn cyflawni'r amcanion o ran diogelu a chyfoethogi natur yn ddigonol, yn enwedig mewn perthynas â datblygiadau newydd. Dywedodd Rheolwr Datblygu Strategol a Chreu Lleoedd fod y CDLl a ffefrir, sy'n nodi'r strategaeth hirdymor, yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Mae'r Argyfwng Natur, bioamrywiaeth a phwysigrwydd seilwaith gwyrdd yn rhan o'r strategaeth a ffefrir ac maent yn hanfodol i'w chyflawni. Mae'r CDLl yn dilyn canllawiau polisi Llywodraeth Cymru. Roedd y swyddogion yn hyderus y byddai'r CDLl yn cryfhau'r gwaith o ddiogelu a chyfoethogi natur mewn perthynas â datblygiadau ar raddfa fawr.

- Roedd Aelod o'r farn y gallai'r CDLl wneud mwy i gyfoethogi natur drwy sicrhau bod gan dai mewn datblygiadau newydd erddi maint digonol a gofynnodd a fyddai'r ddarpariaeth honno'n cael ei chynnwys yn y CDLl. Dywedodd yr Ecolegydd Sirol fod gerddi'n cael eu hystyried ym mhob cais ac os nad yw'r cais cynllunio arfaethedig yn bodloni'r prawf 'budd net' yna bydd gwrthwynebiad i'r cais yn cael ei gyflwyno. Efallai bod dadl dros gael Polisi Budd Net penodol yn y CDLl ond mae'r agweddau hynny yn cael sylw mewn polisïau presennol fel y Polisi Seilwaith Gwyrdd. Dywedodd Rheolwr Datblygu Strategol a Chreu Lleoedd fod gan Bolisi Cynllunio Cymru ofyniad i gyfoethogi bioamrywiaeth ac y byddai hyn yn parhau i'r CDLl newydd.

- Nododd Aelod argymhelliad yn yr adroddiad ar ymchwiliad bioamrywiaeth y Pwyllgor ynghylch faint o amser a roddir gan yr Ecolegydd Sirol i gyflawni dyletswyddau statudol dan y drefn Gynllunio. Gofynnwyd i'r Ecolegydd Sirol wneud sylw ar yr argymhelliad a gofynnwyd a fyddai penodi ail Ecolegydd Sirol yn cynorthwyo. Dywedodd yr Ecolegydd Sirol mai'r bwriad yw recriwtio ail ecolegydd ac y byddai hyn yn ei alluogi i weithio ar draws yr awdurdod yn fwy strategol. Ar hyn o bryd mae llawer iawn o amser yn cael ei ddyrannu ar gyfer ystyried ceisiadau cynllunio, ond mae'n hanfodol bod y gwaith hwn yn cael ei wneud er mwyn cyfoethogi bioamrywiaeth. Derbyniodd Rheolwr Datblygu Strategol a Chreu Lleoedd fod angen capasiti ychwanegol. Mae swydd yr ail Ecolegydd wedi'i hysbysebu ond ni lwyddodd i ddenu ymgeiswyr gyda'r cymwysterau angenrheidiol, felly bydd yn cael ei hysbysebu eto.

- Gofynnodd Aelod pa un o'r argymhellion yn yr adroddiad ar yr ymchwiliad Bioamrywiaeth sydd wedi cael eu datblygu a pha rai sydd angen eu gwella. Roedd Rheolwr Gweithredol Parciau, Chwaraeon ac Awdurdod yr Harbwr o'r farn bod cynnydd da wedi'i wneud yn erbyn yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad ar yr ymchwiliad a oedd yn rhan o gylch gwaith ei Wasanaeth. Dyrannwyd cyllid refeniw ychwanegol yng nghyllidebau 2021/22 a 2022/23 a alluogodd Ceidwaid Parciau Cymunedol ychwanegol i gael eu defnyddio. Mae'r Cynllun Prentisiaeth hefyd wedi helpu.

- Gofynnodd Aelod a oedd y polisïau CDLl newydd yn ddigonol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau sy'n gwrthdaro sydd gan y Cyngor fel cydbwyso cyfoethogi bioamrywiaeth a darparu prosiectau tai neu drafnidiaeth newydd ac a oedd swm y gorfodi'n ddigonol.  Gofynnwyd i'r swyddogion wneud sylwadau ar yr hyn y gallai'r awdurdod ei wneud o ran gorfodi pan fo datblygwyr yn methu â gwneud yr hyn sy'n ofynnol.  Dywedodd Rheolwr Datblygu Strategol a Chreu Lleoedd fod polisïau cyfredol yn mynd i'r afael â'r materion hyn ond gallent o bosibl fynd ymhellach yn y CDLl newydd.  Derbyniwyd y pwynt ynghylch blaenoriaethau sy'n gwrthdaro a chynrychiolodd hyn yr her fwyaf sy'n wynebu Swyddogion Cynllunio.  Roedd gorfodi cryf yn bwysig er mwyn nodi meysydd lle mae diffygion er mwyn gallu mynd i'r afael â'r rhain gyda datblygwyr.

- Gofynnodd Aelod a oes gan yr awdurdod unrhyw bwerau i wahardd gosod glaswellt artiffisial.  Cadarnhaodd y swyddogion nad oes pwerau ar hyn o bryd i wahardd defnyddio glaswellt artiffisial gan nad oes angen caniatâd.  Gofynnodd Aelod a fyddai gosod caeau chwaraeon glaswellt 4G yn cael effaith.  Dywedodd Rheolwr Datblygu Strategol a Chreu Lleoedd y byddai angen lliniaru yn erbyn unrhyw effaith bosibl wrth osod caeau 4G ac y bydd mesurau cyfoethogi bioamrywiaeth yn cael eu cynnwys er mwyn gwrthbwyso unrhyw effaith.

- Gofynnodd Aelod sut mae diogelu safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA) yn cael ei gydbwyso yn erbyn yr angen am ddatblygiadau newydd yn y ddinas.  Dywedodd Rheolwr Datblygu Strategol a Chreu Lleoedd bod cydbwyso buddiannau sy'n gwrthdaro'n heriol.  Mae Pennod 6 diwygiedig canllawiau Polisi Cynllunio Cymru yn rhoi llawer mwy o bwys i amddiffyn SoDdGA i'r graddau y dylid osgoi datblygiadau newydd sy'n effeithio ar SoDdGA bellach.  Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir datblygiadau ar SoDdGA neu sy'n effeithio arnynt.

- Gofynnodd yr Aelodau a ystyriwyd cael swyddog penodol yn chwilio am ffynonellau cyllid grant ar gyfer prosiectau bioamrywiaeth.  Cefnogodd Rheolwr Gweithredol Parciau ac Awdurdod yr Harbwr yr awgrym ar gyfer swyddog grantiau penodol.  Ar hyn o bryd mae'r rôl wedi'i hintegreiddio i rôl y Swyddog Datblygu Cymunedol a Chadwraeth yn y Gwasanaeth Ceidwaid Parciau Cymunedol, rôl y Swyddog Coed a rôl y Swyddog Rhandiroedd.

- Gofynnodd Aelod, o ran gorfodi, a ellid defnyddio swyddog penodol i orfodi polisi bioamrywiaeth ar ddatblygiadau newydd.

- Wrth ymateb i bwynt a godwyd gan Aelod, dywedodd y swyddogion fod cyllid 'Gwyrddio Ystâd y Cyngor' Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i ddarparu waliau gwyrdd yn Ysgol Gynradd Kitchener, Ysgol Gynradd Llwynbedw a Chanolfan Dusty Forge.  Dangosodd gwaith monitro ansawdd aer y Gwasanaethau Rheoliadol ostyngiad o 25% mewn lefelau nitrogen ocsid yn ogystal â phreifatrwydd ychwanegol a gostyngiad yn lefelau sŵn traffig.

- Gofynnodd y Pwyllgor am farn ynghylch i ba raddau y mae bioamrywiaeth a'r argyfwng natur wedi'u hymgorffori ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor, er enghraifft wrth waredu lleiniau o dir. Roedd yr Aelod Cabinet o'r farn y bydd y cynllun DBGE yn ei gwneud yn ofynnol i ymgorffori'r materion hynny wrth wneud penderfyniadau. Dywedodd yr Ecolegydd Sirol y bydd hyfforddiant dyletswydd Adran 6, a ddarperir fel rhan o'r cyllid PNL, yn targedu penaethiaid adrannau ac y dylai gynorthwyo i ymgorffori'r materion hyn wrth wneud penderfyniadau hefyd.

- Gofynnodd yr Aelodau pryd y byddai'r cynllun DBGE yn cael ei gwblhau. Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'r cynllun yn barod ym mis Ebrill 2024.

- Gofynnodd Aelod sut mae pwysigrwydd natur a bioamrywiaeth wedi'i ymgorffori yn amcanion Caerdydd Un Blaned.

- Gofynnodd yr Aelodau beth y gellid ei wneud i gynorthwyo cymunedau i hyrwyddo cynllun bioamrywiaeth yn eu hardaloedd lleol. Dywedodd Rheolwr Gweithredol Parciau ac Awdurdod yr Harbwr fod amrywiol fecanweithiau y gellir eu defnyddio i gefnogi cymunedau gan gynnwys ymgynghori uniongyrchol ag aelodau lleol. Mae gwaith partneriaeth yn digwydd rhwng grwpiau Cyfeillion Parciau/grwpiau preswylwyr a'r tîm Ceidwaid Parciau Cymunedol. Mae'r ymgyrch Carwch Eich Cartref hefyd yn llwybr posibl arall.

- Gofynnodd y Pwyllgor am sylwadau ar reoleiddio bioamrywiaeth yn Lloegr sy'n gofyn am fudd net o ran bioamrywiaeth ar gyfer ceisiadau cynllunio. Roedd yr Ecolegydd Sirol o'r farn bod manteision ac anfanteision i'r ddwy drefn. Gall y cynllun budd net ddod yn ymarfer meintiol tra bod y drefn yng Nghymru yn galluogi'r Ecolegydd sy'n asesu cais cynllunio 'wthio'n ôl' a gwneud newidiadau i gynlluniau ceisiadau cynllunio.

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a wnaed yn ystod y ffordd ymlaen.

25 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim eitemau brys.

26 : Y FFORDD YMLAEN

27 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol yn cael ei gynnal ar 7/12/2023.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.40 pm